| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**<br>**DUR A MÔR, PARC MARGAM A'R FRO 2025** |
| | Cystadleuaeth 142 – Llefaru Unigol Bl. 7, 8 a 9 (D) |
| | **Y Llyfrgell, Casia Wiliam** |

Y Llyfrgell

Dyma le sy'n werth y byd,
yn cynnig croeso mawr o hyd,
lle i swatio'n gynnes, glyd,
lle i fynd am stori.

Dyma le i ti a mi,
i Mam a Dad, Mamgu, Tadcu,
bawb ohonoch dewch yn llu,
dewch i mewn am stori.

Nid oes angen ceiniog goch
i ddod i mewn, na chanu cloch.
Mae'r drws ar led am naw o'r gloch!
Dewch i ddewis stori.

Llyfrau ffeithiol rif y gwlith,
straeon antur yn eu plith,
stori ysbryd yn llawn rhith –
dyna beth yw stori!

Yma cewch fynd ar y we,
anfon ebost amser te,
chwarae gemau gwych – hwrê!
Mae yma fwy na stori.

Plantos bach yn canu'n braf,
sialens ddarllen yn yr haf,
gweld cymydog – sgwrs a gaf.
Dyma le am gwmni.

Dyma le sy'n werth y byd
yn estyn croeso mawr o hyd
lle i swatio'n gynnes, glyd,
llyfrgell i'w thrysori.

Casia Wiliam